

## **Adeiladau cyhoeddus Gwynedd ar y brig mewn effeithlonrwydd ynni**

Mae'r adeiladau cyhoeddus yng Ngwynedd wedi cael eu graddio fel y rhai gorau yng Nghymru am arbed ynni, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol.

Daeth adeiladau sy'n perthyn i Gyngor Gwynedd ar y brig eleni ymysg adeiladau sy'n eiddo i awdurdodau lleol - ac yn ogystal a dal gafael ar y safle cyntaf, mae'r awdurdod hyd yn oed wedi curo'r sgor cyffredinol a gyflawnodd y llynedd.

Mae'r ffigyrau wedi'u seilio ar sgor cyfartaledd Tystysgrif Arddangos Ynni (DECs) pob awdurdod lleol unigol ar gyfer ei adeiladau cyhoeddus sydd ag arwynebedd o dros 1,000 metr sgwar.

Mae'r dystysgrif yn dangos perfformiad ynni adeilad yn seiliedig ar ei wir ddefnydd o ynni dros y 12 mis diwethaf. Darpara DEC radd ynni rhwng A a G - A yn cynrychioli'r allyriadau CO<sub>2</sub> isaf (y gorau) a G yn cynrychioli'r uchaf (y gwaethaf).

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae sgor adeiladau Cyngor Gwynedd wedi gwella 11.2% ar gyfartaledd, o 74.6 i 66.2, sy'n ei osod yn gadarn o fewn band C ac yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 86.5 (D).

Mae'r gwelliant ym mherfformiad Gwynedd yn ganlyniad i brosiect sylweddol sydd wedi arwain at fuddsoddiad o bron i £ 3.75 miliwn gan y Cyngor i uwchraddio'i adeiladau a'i wasanaethau i wella'u heffeithlonrwydd ynni fel rhan o'i Gynllun Rheoli Carbon. Mae'r cynllun, a weithredwyd yn 2010, wedi llwyddo i leihau ol-troed carbon adeiladau yr awdurdod 30% dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae enghreifftiau o'r gwaith a gynhaliwyd o fewn yr adeiladau'n cynnwys: uwchraddio goleuadau; insiwleiddio pibellau gwresogi; uwchraddio boeleri; uwchraddio rheolyddion gwresogi; insiwleiddio waliau; gosod Unedau Optimeiddio Foltedd; gosod Unedau Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) ac IWEMS (System Rheoli Dŵr ac Ynni Integredig) mewn pyllau nofio; yn ogystal a gosod paneli solar PV ar doeau 54 o adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion, canolfannau hamdden, swyddfeydd a chartrefi preswyl.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet yr Amgylchedd: "Fel Cyngor, rydym wedi ymrwmo i leihau ein hol-troed carbon a'n heffaith ar yr amgylchedd er mwyn cenedlaethau'r dyfodol, ac mae'r gwelliant cyffredinol sydd i'w weld yng ngraddau DEC ein hadeiladau yn profi'r ymroddiad hwn."

"Yn y pum mlynedd nesaf, ein nod yw adeiladau ar y llwyddiant hwn wrth barhau i wella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau a'n gwasanaethau er budd pobl Gwynedd."

Ers 2010, mae'r Cynllun Rheoli Carbon wedi llwyddo i arbed mwy na £ 2.2 miliwn mewn costau ynni ar draws y Cyngor.

Bellach yn ei ail wedd, bydd Cynllun Rheoli Carbon 2 yn anelu i leihau allyriadau carbon y Cyngor 10% ymhellach erbyn 2021 gyda buddsoddiad cyfalaf o £ 3.26 miliwn fydd yn arwain at arbedion refeniw blynyddol o £ 645,000.

Er i'r prosiectau sy'n ffurfio rhan o'r cynllun newydd gynnwys rhagor o fuddsoddiad i wella adeiladau, goleuadau stryd a thechnolegau adnewyddadwy, y prif ffocws fydd codi ymwybyddiaeth staff i sicrhau bod y gweithlu yn ei gyfanrwydd yn rhagweithiol pan ddaw i arbed ynni, gyda chyflwyniad systemau mesuryddion newydd sy'n caniatáu i staff fonitro a rheoli defnydd ynni o fewn eu hadeiladau'n fwy effeithiol.